Autism Cymru
Wales' National Charity for Autism
Elusen Genedlaethol Cymru ar gyfer Awtistiaeth

The Irish Society for Autism

PROSIECT DEIS CYFLE ! TAFLEN ADDYSG BELLACH AC UWCH

Cefnogaeth Effeithiol ar Gyfer Pobl Ifanc Gydag Anhwylder Sbectrwm Awtistig

Bydd rhai pobl ifanc gydag anhwylder sbectrwm awtistig (ASA) yn dewis ymgeisio am le i barhau eu hastudiaethau ar ôl gadael yr ysgol. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 11 neu 13 bydd eu hanghenion dysgu wedi eu diwallu yn eu hysgol neu'r coleg 6ed dosbarth.

Unwaith y byddant wedi dechrau mynd trwy'r cyfnod trawsnewid a dechru ymgeisio am le i astudio ymhellach mewn coleg addysg bellach, neu ganolfan hyfforddi neu brifysgol, bydd eu hanghenion yn elwa o gefnogaeth briodol (Martin, 1999 a 2008; Harpur et al, 2004).

Cynhyrchwyd y daflen hon gan y Proseict Deis Cyfle! i amlygu rhai o'r ystyriaethau ychwanegol y bydd ar bobl ifanc ag ASA efallai eu hangen yn y cyfnod hwn o drawsnewid, ac wedyn, i wneud y mwyaf o'u dysgu gydol oes.

Mewn unrhyw sefydliad ôl-ysgol

- **Bydd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ASA gan y staff yn chwarae rhan enfawr yn llwyddiant yr unigolyn ag ASA**
- **Mae hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn hanfodol a dylid eu ddiweddaru'n rheolaidd**
- **Conglfaen ymwybyddiaeth yw dealltwriaeth o sut mae'r unigolyn ag ASA yn meddwl a gweithredu**
- **Bydd yn rhaid adeiladu cyfathrebiad ymddiriedus gyda'r unigolyn**
- **Bydd amser a dreulir yn dod i adnabod yr unigolyn , ei sgiliau a'i gryfderau yn amser fydd wedi ei dreulio'n dda**
- **Mae'r rhan fwyaf o unigolion ag ASA yn gweithio'n dda gyda strwythur, amserlenni, rhestrau o bethau i'w gwneud, hunan drefnu**
- **Efallai bydd angen cefnogaeth i hogi'r sgiliau hynny ac i drefnu blaenoriaethau a llinellau terfyn**

CYN AC YN YSTOD YMGEISIO

- Bydd unrhywbeth fydd yn helpu paratoi'r unigolyn ar gyfer bywyd mewn Addysg Bellach neu Uwch yn werth chweil
- Gall profiadau a doniau blaenorol a ddatblygwyd yn yr ysgol arwain at ddisgwyliadau y bydd Addysg Bellach ac Uwch yn ymestyn y cyflawniadau cynharach hyn
- Gall y gofynion cyn-cychwyn arferol mewn Addysg Bellach ac Uwch roi darlun camarweiniol o'r hyn y gall yr unigolyn ei wneud a'r hyn mae ef/hi yn chwilio amdano gennych chi
- Archwiliwch broses ymgeisio'r sefydliad a gwnewch yn siwr bod y wybodaeth a ddarperir yn gryno, yn glir ac yn eglur
- Meddylwich am wahanol ffyrdd i gael y mwyaf allan o fyfyrwyr posibl wrth iddynt ymgeisio, yn y cyfweliadau a phan gynigir lle iddynt
- Gall cyflwyniad personol yr unigolyn ar bapur ac mewn cyfweliad arwain at y casgliadau anghywir – efallai nad oes ganddynt y lefel sgiliau cymdeithasol i gyflwyno'u hunain yn y golau gorau posibl, sut gallwn ni eu galluogi i roi o'u gorau?
- Efallai bod eu dewis o gyrsiau yn ddibynnol ar yr hyn y credant hwy yw eu cryfderau neu sut y cyflwynwyd y pwnc hwnnw yn yr ysgol – gall hyn arwain at beidio â chyflawni eu disgwyliadau neu beidio â gwireddu eu haddewid cynnar
- Gall sesiynau profi, blasu roi syniad gwell iddynt o'r cwrs
- Bydd mewnbwn dyddiau blasu / tasgau lleoliad / sgiliau astudio, yn ogystal â mewnbwn gan yr adran sy'n cynnig cymorth i fyfyrwyr, yn helpu'r unigolyn
- Pe bai rhai o'r ymarferion hyn yn gallu cychwyn cyn mynediad neu cyn gynted â bod y graddau a'r derbyn ar gwrs wedi eu gweithio allan, yna bydd gan yr unigolyn ddarlun mwy eglur o'r hyn mae'n anelu ato
- Ni fydd pob unigolyn ag ASA yn gwerthfawrogi pwysigrwydd datgan eu hanabledd – efallai na fydd eu hasesiad o'u hanghenion cefnogaeth eu hunain wedi trawsnewid i amgylchedd gwahanol gyda disgwyliadau gwahanol ond efallai bydd angen cymorth ar y myfyrwyr
- Dylech wneud yn siwr eu bod yn gwybod sut a ble i gael cymorth
- Fel rhan o drefniadau asesu effaith cydraddoldeb ar gyfer ymgeiswyr, myfyrwyr a graddedigion, beth am adeiladu cydran ASA-benodol o'r ymarfer ehangach hwn o adolygu prosesau a chefnogaeth?

SESIWN GYFLWYNO A PHROSESAU TRAWSNEWID

- Dylid sicrhau eu bod yn gwybod os oes ganddynt hawl i gael cefnogaeth budd-daliad gan Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA) a'u cefnogi yn eu cais
- Rhowch amser iddynt i archwilio ac i ymgyfarwyddo â'r amgylchedd newydd
- Gwiriwch bod ganddynt rhyw fath o drafnidiaeth i'ch cyrraed a'u bod yn gallu ei ddefnyddio'n ddibynadwy
- Byddai cael ffrind ymysg y myfyrwyr hŷn neu gynnal cysylltiad ag aelod o'r staff cwrs/cymorth o fudd ac yn helpu datrys unrhyw broblemau cynnar
- Bydd byd cymdeithasol Addysg Bellach ac Uwch yn wahanol i'r hyn maent wedi ei brofi cyn hyn ac efallai bydd anghenion cefnogaeth ychwanegol ganddynt na fydd wedi dod i'r amlwg o flaen llaw
- Efallai byddant yn dod i'r coleg/prifysgol gyda chyfoedion o'u hysgol ac efallai bydd cylch o gefnogaeth ymysg y cyfoedion hyn a all eu helpu i'w tywys trwy amserlen sy'n fwy rhwydd a hyblyg

ASTUDIO GYDA CHI

- Mae'r gystadleuaeth i ganolbwyntio ar waith neu chwarae yn fwy amlwg nag yn yr ysgol a bydd o fudd i strwythuro gwaith a chynllunio
- Gall y dybiaeth am allu dirnadol o'i gymharu â sgiliau bywyd ddod i'r amlwg – efallai bydd gennych ysgolheigwyr gwych sy'n straffaglu i edrych ar eu hôl eu hunain neu ddelio â thrafnidiaeth gyhoeddus – efallai y byddwch yn cymryd yn ganiataol bod ganddynt fwy o annibyniaeth nag sydd ganddynt, efallai bydd yn rhaid i ffrind neu fentor ofyn cwestiynau uniongyrchol ynghylch bwyta / cysgu a sgiliau hunan ofal
- Efallai bydd materion pedagogaeth darlithoedd mawr wedi ei dilyn gan astudio unigol neu mewn grŵp yn achosi problemau i unigolyn sydd wedi arfer â dull mwy didactig
- Efallai bydd angen strwythuro gofalus i ddelio ag adegau hir o astudiaethau ymchwil a chwblhau tasgau i'w hasesu ac efallai bydd angen mentora ar yr unigolyn i ddelio â hyn
- Ambell waith mae meddyliau a gwybodaeth ar lefel uchel iawn – gall fod yn heriol i gael rhywun israddedig yn cwestiynu eich credoau mewn darlithfa fawr
- Gall astudiaethau ag elfen fawr o waith grŵp fod yn broblem i fyfyrwyr ag ASA sydd efallai wedi arfer â gweithio ar eu pen eu hunain a bod yn hunan ddibynnol
- Yn wahanol i fyfyrwyr eraill, efallai bydd ar unigolyn ag ASA angen cefnogaeth barhaus trwy gydol eu hastudiaethau neu gall problemau eraill godi na ragwelwyd
- Gall problemau ynghylch pryder ac iechyd meddwl olygu bod ar fyfyrwyr ag ASA angen gwybod am gael mynediad i wasanaethau cymorth arbenigol
- Efallai bydd angen archwilio'n eglur yr astudiaethau a chanlyniadau'r dyfodol ar wahanol adegau trwy gydol eu cwrs astudio
- Ydych chi wedi defnyddio'r teclyn archwilio hunan-werthuso (Prosiect Deis Cyfle 2012) i asesu anghenion cefnogaeth a dysgu llawnach myfyrwyr ag ASA?

EICH GADAEL

- A gynigiwyd y gefnogaeth a'r canllawiau priodol iddynt ynghylch opsiynau gyrfaoedd yn ystod eu hamser yn astudio gyda chi?
- Ydyn nhw'n ymwybodol o Gymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr a'u buddion?
- A oes cynlluniau neu gyfleoedd o fewn eich sefydliad i ymarfer sgiliau cyflogadwyedd neu ymarferion i baratoi ar gyfer cyflogaeth?
- Efallai bydd angen cefnogaeth bellach arnynt i ddelio â'r trawsnewid ar ôl iddynt adael y coleg neu'r brifysgol, fydd hyn ar gael?
- Ydych chi'n cadw cofnod o lwybrau'r myfyrwyr ar ôl iddynt eich gadael?

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i'r staff ym Mhrifysgol Metropolitan Abertawe a Phrifysgol Caerdydd am eu cymorth yn cynhyrchu'r daflen hon.

Cyfeiriadau

Harpur. J., Lawlor. M.a Fitzgerald. M. (2004) 'Succeeding in College with Asperger Syndrome' London/NY: Jessica Kingsley

Martin. N. (1999 a 2008) 'Support in Transition for FE Students with AS Abstract' DNA Day to Day, Conference Proceedings :36

Martin. N. (2008) REAL services to assist students who have Asperger syndrome. http://www.shu.ac.uk/faculties/ds/education/theautismcentre/papers.html (cyrchwyd 30/03/12)

Gwefannu Defnyddiol yng Nghymru

www.awares.org

www.autismcymru.org

www.ASDInfoWales.co.uk

www.autism.org.uk/wales

code FE/HE 2012

Ariannir Deis-Cyfle! yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Mae'r cyhoeddiad hwn yn adlewyrchu safbwynt yr awdur ac nid yw Awdurdodau'r Rhaglen yn atebol am unrhyw ddefnydd a wneir o'r wybodaeth a gynhwysir ynddo.